**Pennaeth Economi a Chymuned**
**Head of Economy & Community**
Sioned E. Williams

Gofynnwch am/Ask for: Sioned E Williams
☎(01286) 679547
🖹 (01286) 679338
SionedEWilliams@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Drwy e-bost: pwyllgor.menter@cymru.gov.uk

31 Ionawr 2014

**Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020**

Annwyl Dr Siân Phipps,

Ysgrifennaf atoch i gyflwyno ymateb Cyngor Gwynedd i ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cymru i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-20.

Yr ydym yn hynod ddiolchgar o'r cyfle i ymateb i'r ymchwiliad hwn i gyfleu ein profiadau ni fel Awdurdod Lleol wrth ddelio gyda nifer o'r Cronfeydd Ewropeaidd hyn. Credwn y bydd profiadau cyffredinol gan Awdurdodau Lleol eraill a hyderwn y caiff y rhain eu cyfleu drwy law ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). I ategu'r ymateb hyn felly, hoffem dynnu sylw penodol at rai o'r prif faterion yn ein tyb ni.

**<u>Profiad gyda'r Cronfeydd</u>**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ymwneud â nifer o'r Rhaglenni enwir yn yr ymchwiliad dros y blynyddoedd. Mae nifer o bartneriaethau wedi eu datblygu yn hanesyddol rhwng y Cyngor a nifer o sefydliadau Ewropeaidd eraill drwy amryw raglenni cydweithio tiriogaethol i rannu profiadau ar faterion democratiaeth, llywodraethu a dwyieithrwydd. Hefyd, mae ein hadran addysg yn hanesyddol wedi bod yn weithgar mewn sefydlu cysylltiadau gydag amryw ysgolion yng ngwledydd Ewrop i rannu profiadau a threfnu ymweliadau dysgu drwy law rhaglenni megis Erasmus+, ac mae'r gwaith hyn yn parhau o bryd i'w gilydd. Er hyn, dylid nodi mai braidd ar hap yw cyfranogaeth wedi bod yn hanesyddol wrth i adrannau penodol ddigwydd cael gwybodaeth am gyfleoedd perthnasol.

Mae gweithgaredd cefnogol hefyd wedi ei roi yn y gorffennol i hwyluso mynediad trefi a chymunedau i gronfa 'Dinasyddion ar gyfer Ewrop'. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at hwyluso cyfarfodydd a chyfnewidfeydd addysgol rhwng gefeilldrefi Gwynedd a gefeilldrefi ledled Ewrop. Yn anffodus, mae capasiti'r Cyngor i gynorthwyo'n ddwys yn y maes hwn bellach wedi ei gyfyngu.

Yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu elfen o brosiect Twristiaeth Awyr Agored, a gaiff ei ariannu drwy Raglen Cymru-Iwerddon 2007-13 gyda Chyngor Conwy, Y Bartneriaeth Awyr Agored, Cyngor Sir Dun Laoghaire Rathdown, Cyngor Sir Kildare a Phartneriaeth Arweinyddiaeth Kilkenny. Mae hwn wedi bod yn enghraifft gref iawn o sut ellir defnyddio'r Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol er budd pob partner, ac mae trafodaethau wedi cychwyn i edrych ar ddilyniant i'r rhaglenni nesaf.



Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.gov.uk

**Cefnogaeth a Heriau**

Heblaw am yr enghreifftiau penodol a gyfeirir ato uchod, nid ydym fel Awdurdod Lleol wedi cyfranogi llawer yn y rhaglenni yma yn ddiweddar am nifer o resymau. Nid oes canolfan gyswllt bwrpasol yn y Gogledd-orllewin ac felly mae ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y rhaglenni yn isel yn lleol. Wrth i gyllidebau dynhau mae ffocws yr Awdurdod ar dargedu'r Cronfeydd Strwythurol ac mae ein swyddogion yn canolbwyntio ar rain. Mae ein tîm Ewropeaidd yn ceisio anfon gwybodaeth berthnasol ynglŷn â chyfleoedd trawsffiniol ymlaen i gysylltiadau lleol fel bo'n briodol, ond mae lefelau amser a gwybodaeth yn isel. Yn aml caiff gwybodaeth am gyfleoedd eu derbyn ar fyr rybudd gydag amseroedd cau tynn iawn - ac felly yn sicr mae cyfleoedd yn cael eu colli yn lleol.

Yn hanesyddol mae llawer o waith wedi mynd fewn i ddatblygu'r ceisiadau. O brofiad, mae llawer o gefnogaeth ei angen ar lefel leol i sicrhau'r wybodaeth gywir, darganfod y partneriaid cywir, sicrhau ffynonellau cyd-ariannu, sicrhau cyfranogaeth adrannau gwahanol a sefydliadau allanol, sefydlu a gweithredu unrhyw strwythurau perthnasol pan fo'r cais yn llwyddiannus. Mae ein profiadau wedi bod yn gymysg yn hyn o beth, gyda llawer iawn o waith wedi mynd i rai ceisiadau gyda dychweliadau amrywiol.

Yn hanesyddol hefyd, oni bai am rai eithriadau, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn bartner mewn prosiectau cydweithredol yn hytrach nac wedi arwain arnynt. Mae hyn o ganlyniad i'r baich ychwanegol sy'n cael ei osod ar gyrff arweiniol mewn prosiectau trawsffiniol.

**Buddiannau a Chyfleoedd**

Gyda'r wybodaeth a chefnogaeth gywir ar y lefel leol, credwn yn gryf bod buddiannau positif i'w cael o fod yn weithgar gyda'r rhaglenni hyn. Gyda'r partneriaid cywir, yr ydym wedi gweld buddiannau i rannu profiadau ac ymarfer da i ddatrys rhai problemau gydag atebion cynaliadwy. Mae nifer o gysylltiadau cryf wedi ei sefydlu gydag ardaloedd Ewropeaidd eraill gan gyfrannu at gyfoeth diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Yn enghraifft y prosiect Twristiaeth Awyr Agored drwy'r Rhaglen Cymru-Iwerddon, yr ydym wedi gweld buddiannau enfawr wrth weithio gyda sefydliadau cyffelyb yn Iwerddon i gael mynediad at arbenigeddau mewn ardaloedd eraill ar draws Ewrop trwy ymweliadau addysgol a thrwy benodi ymgynghorwyr proffesiynol yn y maes Awyr Agored. Mae wedi ein galluogi i ddatblygu rhaglen o gefnogaeth gref i'r sector twf hwn yn lleol, gan gynnig cyfleoedd cyflogaeth newydd a fwy cynaliadwy yn yr ardal. Mae'r elfen draws-ffiniol wedi ein galluogi i ddatblygu cynnig o safon uchel mewn amser cymharol fyr drwy rannu gwybodaeth a phrofiadau gweithredu yn gynnar gyda'n partneriaid.

Credwn yn gryf fod cyfleoedd pendant o nifer o'r rhaglenni hyn am y cyfnod 2014-20yn enwedig gellir crybwyll Ewrop Creadigol, Dinasyddion Ewrop, Cysylltu Ewrop a Horizon 2020 yn ogystal â Interreg. Wrth i gyllidebau domestig ac Ewropeaidd dynhau, mae angen i ni edrych ar ffyrdd eraill a fwy arloesol o weithredu. O ganlyniad bydd mwy o bwysau yn cael ei roi ar y cronfeydd prif ffrwd megis y cronfeydd strwythurol a bydd rhaid edrych ar gronfeydd sydd yn hanesyddol wedi eu tanddefnyddio yng Nghymru. Golygai hyn hefyd y bydd y rhagolygon ariannol i Awdurdodau Lleol yn gosod pwysau pellach ar eu gallu i gyfranogi yn y rhaglenni hyn. Gydag adnoddau yn edrych i brinhau i'r dyfodol, mae sicrhau gwybodaeth a chymorth ar y lefel leol yn hanfodol.

**Casgliadau**

Mae ein profiadau wedi bod yn gymysg ar draws y rhaglenni ar hyd y blynyddoedd. Ar y cyfan, mae ein profiadau o’r rhaglenni wedi bod llawer mwy buddiol lle mae amser ac adnoddau wedi bod ar gael i sicrhau eu gweithrediad effeithiol ac y mae’r budd i bob partner wedi ei adnabod o’r cychwyn. Ble bo’r gefnogaeth ac adnoddau cywir mewn lle yn lleol, credwn fod cyfleoedd pendant o gyfranogaeth bellach o’r rhaglenni hyn ar gyfer 2014-20.

Ymhellach i’r materion sydd wedi eu cyfeirio atynt eisoes ynghylch pwysigrwydd yr adnoddau cywir ar y lefel leol i hwyluso cyfranogaeth - mae sicrhau llif wybodaeth o’r cyfleoedd i sefydliadau rhanbarthol a lleol yn hanfodol. Deallwn fod nifer o elfennau o’r rhaglenni yn cael eu hybu gan sefydliadau gwahanol eisoes yn rhannau eraill o Gymru, ond credwn fod bwlch amlwg yn y Gogledd-orllewin. Dylid sicrhau fod gwybodaeth am holl gyfleoedd ariannu Ewropeaidd ar gael yn hwylus, amserol a chlir i sefydliadau ac unigolion Cymreig.

Yng Nghymru, mae gennym y cyfle euraidd yn awr i sicrhau ymagwedd integredig tuag at weithrediad yr holl Gronfeydd Ewropeaidd. Wrth i ddatblygiadau’r rhaglenni prif ffrwd aeddfedu, mae cyfleoedd gennym yn genedlaethol drwy law Llywodraeth Cymru a’r Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i hwyluso mynediad a llif gwybodaeth am yr holl raglenni hyn yn ogystal â chynnig cyfleoedd ariannu i ategu a chryfhau gwerth y rhaglenni yn eu cyfanrwydd.

Yn gywir,



**Sioned E. Williams**
Pennaeth Economi a Chymuned / Head of Economy & Community